# Y Pwyllgor Busnes

## Cofnodion BC(3)16-10

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 25 Mai 2010
**Amser:** 08.30
**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod, Llawr 4, yr Uned Gorfforaethol

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Dafydd Elis-Thomas, y Llywydd (Cadeirydd)
Jane Hutt, y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb
Nick Ramsay, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig
Peter Black, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

### Eraill yn bresennol

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad
Marion Stapleton, Is-adran Busnes y Cynulliad a Rheoli Deddfwriaeth
Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol
Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Deddfwriaeth
Sulafa Halstead, Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad
Anna Daniel, Clerc y Pwyllgor Busnes
Llinos Madeley, Clerc Gweithdrefnau

### 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

#### 2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

#### BC(3)15-10 (Cofnodion drafft) - dydd Mawrth 18 Mai 2010

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf ddrafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, cânt eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi.

**Cam i'w gymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

### 3. Busnes i ddod

#### Busnes yr wythnos hon - BC(3)16-10(p1)

3.1 Hysbyswyd y Pwyllgor gan y Gweinidog dros Fusnes y caiff yr eitemau a ganlyn eu cynnwys yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 25 Mai 2010:

Datganiad gan y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb: Ddatganiad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar doriadau gwariant Llywodraeth San Steffan (45 munud)

Datganiad gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol: Cymunedau yn Gyntaf (45 munud)

3.2 Cytunodd y Pwyllgor na chaiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn 17:00 ddydd Mawrth a dydd Mercher.

3.3 Nododd y Pwyllgor y bydd yr holl bleidleisiau syn ymwneud â'r Mesur Taliadau yn cael eu cynnal yn ystod y ddadl.

3.4 Nododd y Pwyllgor y drefn busnes ar gyfer 25 a 26 Mawrth 2010.

#### Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)16-10(p2)

3.4 Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

#### Amserlen busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)16-10(p3)

3.5 Trefnodd y Pwyllgor yr eitemau a ganlyn ar gyfer 16 Mehefin:

Datganiad gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru (45 munud)

Dadl ar araith y Frenhines (130 munud)

3.6 Symudodd y Pwyllgor yr eitemau a ganlyn o 16 Mehefin i 23 Mehefin 2010:

Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol, Lles a Llywodraeth Leol ar Wasanaethau Strôc (60 munud)

Dadl ar adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau Ymddygiad (60 munud)

3.7 Penderfynodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

3.8 Penderfynodd y Pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y Cynulliad.

## 4. Busnes arall

**(i) Cyfranogiad Gweinidogion y DU yn nhrafodion y Cynulliad**

**Papur yn ymwneud â chyfranogiad Gweinidogion y DU yn nhrafodion y Cynulliad - BC(3)16-10(p4)**

4.1 Ystyriodd y Pwyllgor bapur gan Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes yn cynghori ar gyfranogiad y Prif Weinidog a Gweinidogion y DU yn nhrafodion y Cynulliad. Cytunodd y Rheolwyr Busnes i drafod yr opsiynau o fewn eu pleidiau gwleidyddol.

**Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid - BC(3)16-10(p5)**

4.2 Cyfeiriodd y Pwyllgor at lythyr gan y Pwyllgor Cyllid a oedd yn nodi ei fod yn bwriadu gwahodd Gweinidog y Trysorlys i roi tystiolaeth iddo yn unol ag argymhellion Comisiwn Holtham.

**(ii) Adolygiad o Reolau Sefydlog sy'n berthnasol i bwyllgorau - BC(3)16-10(p6)**

4.3 Trafododd y Pwyllgor ddull i adolygu'r Rheolau Sefydlog sy'n berthnasol i bwyllgorau a'u swyddogaethau perthnasol a chytunodd ar hynny.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**